Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cynllun Chwarae DASH**

**Yr Ysgol Gymraeg**
**Plascrug**
**Aberystwyth**
**SY23 1HL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/08/2023

# Cynllun Chwarae DASH

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | DASH (Delio ag Anabledd a Sialens Hunangymorth) |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Mae'r staff yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi pob ymgais i gyfathrebu. Mae'r plant wedi setlo ac maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y cynllun chwarae. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, gan ddangos diddordeb a brwdfrydedd.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu a hyrwyddo llesiant y plant yn cael eu rhoi ar waith yn dda. Mae'r staff gofal yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar. Maent yn darparu gofal ymatebol ac yn deall anghenion a galluoedd unigol, ac yn eu diwallu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r safle a'r ardaloedd chwarae awyr agored yn ddiogel a chroesawgar, ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda. Maent yn hyrwyddo arferion diogel ac yn rhoi cymorth gweithredol i'r staff gofal. Mae prosesau recriwtio diogel a chadarn ar waith i sicrhau y caiff staff gofal digonol, cymwys a phrofiadol eu cyflogi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'r rhieni i ystyried anghenion a dewisiadau unigol y plant.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Cânt ddewis o blith yr adnoddau a'r teganau sydd ar gael iddynt a rhwng gweithgareddau chwarae rhydd neu weithgareddau mwy strwythuredig. Maent yn symud yn hwylus rhwng y gweithgareddau a'r ardaloedd yn eu prif ystafell. Er enghraifft, gwelsom rai o'r plant yn adeiladu strwythurau 3D gan ddefnyddio teils magnetig cyn symud i chwarae allan yn yr awyr agored ar y llong môr-ladron. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu hystyried wrth drefnu gweithgareddau.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae cydberthnasau agos rhwng y plant a'r staff ac mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni staff sy'n garedig, yn addfwyn ac yn gynnes ac yn eu hadnabod yn dda. Mae'r plant yn y lleoliad yn gyfarwydd â'r arferion sydd ar waith, ac maent yn eu mwynhau. Er enghraifft, symudodd y plant yn gyflym i olchi eu dwylo ac i gasglu eu bocsys bwyd pan glywsant ei bod hi'n amser cinio. Mae hyn y rhoi ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn i'r plant.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn y lleoliad. Mae rhai o'r plant yn hapus yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn unol â'u cam datblygu a'u hanghenion unigol. Mae llawer o'r plant yn cael sicrwydd o aros yn agos at aelodau o'r staff gofal sy'n gyfarwydd iddynt pan fyddant yn teimlo'n anesmwyth neu pan fydd angen cymorth emosiynol arnynt. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu'r trac trenau ac yn eistedd yn ddiffwdan wrth y bwrdd yn ystod amser bwyd. Mae'r plant nad ydynt yn barod i eistedd a bwyta yng nghwmni eraill wrth ymyl y byrddau yn dewis eistedd a bwyta yn rhywle heddychlon a thawel.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mynegi diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu, gan ddilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau â gweithgareddau am gyfnod priodol o amser ac maent yn ymgolli yn eu chwarae yn ddigon bodlon. Er enghraifft, gwelsom y plant yn chwarae 'Connect Four' er mwyn gwneud patrymau lliwgar gyda'r cownteri. Gwnaeth plant eraill ddewis chwarae yn yr hambwrdd dŵr, gan fwynhau arllwys y dŵr dros y deinosoriaid. Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau hyderus o ran ble yr hoffent chwarae ac yn dewis adnoddau'n annibynnol neu gyda chymorth addas gan y staff gofal.

Mae'r plant yn cyfleu eu hanghenion yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu llafar a dieiriau, ac yn eu tro, cânt ymatebion priodol. Mae rhai o'r plant yn hyderus wrth fynd at y staff am sgwrs ac i ddangos pethau iddynt, i rannu teganau ac i ofyn am help. Mae'r plant yn siarad yn hyderus â'r staff sy'n gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei ddweud. Er enghraifft, gwelsom rai o'r plant yn sgwrsio'n hapus â'r staff am yr hyn yr oeddent yn ei wneud gyda'r nos ar ôl bod yn y cynllun chwarae.

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn golchi eu dwylo'n annibynnol ac

yn cyfleu'r hyn yr hoffent ei gael fel byrbryd, gan ddewis beth y byddai'n well ganddynt ei gael. Mae bron pob un o'r plant yn cyfleu amrywiaeth o ddewisiadau a theimladau drwy eu gweithredoedd, eu llais neu eu mynegiant. Caiff y plant eu cefnogi i ddatblygu eu hannibyniaeth wrth fynd i'r toiled a golchi eu dwylo.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu ac maent yn rhoi'r polisïau ar waith yn effeithiol. Maent wedi ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu cyfredol ac mae'r staff gofal yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau, gan sicrhau y caiff y rhieni eu hysbysu. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo arferion iach ac yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r staff gofal yn cynnal ymarferion tân i wneud yn siŵr bod y plant a'r staff gofal yn gwybod beth i'w wneud os bydd angen iddynt adael y safle mewn argyfwng.

Mae'r staff gofal yn rheoli ymddygiad yn dda, gan deilwra eu hymatebion i anghenion a galluoedd gwahanol oedrannau a chamau datblygiad y plant. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn gofyn cwestiynau am yr hyn y mae'r plant yn ei wneud sy'n annog trafodaeth, a chyfleoedd pellach i ddysgu.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal a phrofiadau sy'n addas ar gyfer anghenion unigol y plant. Maent yn addasu arferion a chyfleoedd i sicrhau y caiff holl anghenion y plant eu diwallu'n dda. Maent yn cydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau cymorth megis ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith a gweithwyr meddygol proffesiynol. Yn ystod ein hymweliad, roedd y staff gofal yn gweithio ar gymhareb o 1:1 â'r plant er mwyn diwallu anghenion unigol y plant.

Mae'r staff gofal yn canolbwyntio'n dda ar ddiddordebau'r plant, eu hanghenion a'u datblygiad unigol.  Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda, yn eu hannog i ddysgu ac yn eu gwahodd i holi ac ateb llawer o gwestiynau er mwyn datblygu eu chwilfrydedd a'u sgiliau meddwl. Mae'r staff gofal yn gwrando'n dda a phan nad yw'r plant yn awyddus i gymryd rhan, maent yn awgrymu dewisiadau amgen. Mae'r staff gofal yn ymuno yn y gemau pan gânt wahoddiad i wneud hynny, er enghraifft, wrth chwarae yn y dŵr yn llawn cyffro a chwerthin. Mae'r staff gofal yn canmol y plant yn aml am wneud yn dda, am fod yn garedig ac yn feddylgar a wnaeth i'r plant wenu a theimlo'n hapus.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle'n ddiogel i'r plant. Caiff y cynllun chwarae ei leoli ar safle'r ysgol gynradd leol, ac yn gyffredinol, caiff ei osod allan a'i glirio ymaith cyn ac ar ôl pob sesiwn. Roedd y prif ddrws wedi'i gloi pan wnaethom gyrraedd, felly nid oedd modd i unrhyw un gael mynediad heb awdurdod. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac wrth adael. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal ac fe'u cofnodwyd. Mae'r safle yn lân ac mae'r adnoddau yn ffres.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu'r plant. Mae cyfarpar addas sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant ar gael. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cyfarpar wedi'i osod o fewn cyrraedd hawdd i'r plant yn yr ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored, gan eu galluogi felly i ddewis eu teganau a'u cyfarpar eu hunain. Mae'r amgylchedd dysgu wedi'i osod mewn ffordd addas u'r plant, er mwyn iddynt allu symud o un ardal i'r llall yn hawdd. Mae'r plant yn helpu eu hunain i wahanol adnoddau i ddatblygu eu chwarae er enghraifft posau, gemau bwrdd, trac trenau, ardal grefft neu chwarae meddal. Mae cynllun yr amgylchedd yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu chwarae yn annibynnol ac mae'r ardal ar gyfer cotiau a bagiau yn creu ymdeimlad o berthyn.

Mae cynllun yr amgylchedd yn sicrhau bod modd i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn hawdd. Mae'r adnoddau synhwyraidd a'r cyfarpar chwarae meddal a ddyluniwyd yn arbennig yn cynnig amrywiaeth dda o brofiadau sy'n ysgogi ac yn datblygu synhwyrau'r plant. Mae'r rhain yn cynnwys goleuadau lliw, synau a chyfleoedd i chwarae ag eitemau gweadog mewn amgylchedd diogel sy'n rhoi cyfle i'r plant archwilio a rhyngweithio heb risgiau. Gan fod yr ysgol gynradd ar gau dros wyliau'r haf, nid oedd y tystysgrifau diogelwch gwres na'r tystysgrifau profion PAT ar gael i ni eu gweld.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi ysgrifennu datganiad o ddiben, sy'n rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r rhieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig, a gall rhieni benderfynu a yw'n diwallu eu hanghenion ac anghenion eu plentyn. Mae gan y lleoliad amrywiaeth lawn o bolisïau a gweithdrefnau a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd, ac mae systemau cadarn ar waith i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu arferion y lleoliad yn effeithiol.

Mae system effeithiol ar waith ar gyfer gwerthuso'r lleoliad a'r gofal a ddarperir. Maent yn ystyried syniadau ac yn gwneud cynlluniau ar gyfer newidiadau a gwelliannau sydd o fudd i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio eu cryfderau ac yn manteisio arnynt yn gyson, sy'n sicrhau bod y lleoliad yn symud yn ei flaen yn effeithiol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthynas dda â'r staff yn yr ysgol y mae'r cynllun chwarae yn gweithredu o'i mewn. Mae hyn yn helpu'r plant i ymlacio ac i deimlo'n gyfforddus. Mae'r gydberthynas hefyd yn golygu bod modd rhannu cyfleusterau, adnoddau ac arferion da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu arweinyddiaeth gref, lle caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir. O ganlyniad, ceir tîm o staff sy'n cydweithio'n dda ac sy'n helpu ei gilydd i ddarparu cyfleoedd chwarae a gofal effeithiol i'r plant. Mae'r staff yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r sesiynau goruchwylio staff a'r arfarniadau yn eu galluogi i rannu gwybodaeth ac i nodi hyfforddiant posibl. Mae'r weithdrefn recriwtio yn gadarn ac mae'r holl wybodaeth ofynnol ar gael i ddangos bod y staff yn addas i ofalu am y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau ardderchog â'r rhieni. Maent yn hysbysu'r rhieni yn rheolaidd am ddiwrnod eu plentyn a'r hyn y mae wedi'i fwynhau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'r rhieni i nodi anghenion unigol a dewisiadau eu plant, ac i wella llesiant a dysgu eu plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth a'r gofal a gynigir. Mae ganddynt weledigaeth glir i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol i gyrraedd eu llawn botensial ac maent yn rhoi cymorth a chyngor i deuluoedd/gofalwyr.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/10/2023